HSCCLD346

# Hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth â'u teuluoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu gofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol, mewn partneriaeth â'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys annog plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol i gymryd rhan mewn ystod lawn o chwarae a phrofiadau. Mae hefyd yn cynnwys nodi a darparu adnoddau a fydd yn cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan a chael eu cynnwys. Mae'n gofyn i chi gefnogi teuluoedd mewn perthynas â gofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. arsylwi plant neu bobl ifanc a defnyddio arsylwadau i lywio eu gofal, dysg a datblygiad
2. cael caniatâd, cael gafael ar wybodaeth berthnasol am anghenion ychwanegol plant a phobl ifanc, a rhannu'r wybodaeth honno
3. annog annibyniaeth plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u gofal, dysg a datblygiad
4. datblygu cynlluniau personol i gefnogi plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
5. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac eraill i nodi a gwneud cais am adnoddau i gwrdd â dewisiadau ac anghenion plant a phobl ifanc
6. nodi a defnyddio cymhorthion, cyfarpar, dyfeisiau neu adnoddau digidol gyda theuluoedd ac eraill i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
7. nodi a gweithio ag eraill i asesu ac ymateb i anghenion plant a phobl ifanc
8. defnyddio ffyrdd o weithio sy'n cwrdd â dewisiadau ac anghenion plant neu bobl ifanc a theuluoedd wrth gyfathrebu
9. gwrando ac ymateb mewn ffyrdd sy'n dangos eich bod yn gwerthfawrogi ac yn parchu plant neu bobl ifanc a theuluoedd
10. cefnogi plant neu bobl ifanc i fynegi eu meddyliau ac i reoleiddio'n emosiynol i sicrhau cyd-ddealltwriaeth
11. cynnig amrywiaeth o leoedd, profiadau a rhyngweithiadau i blant neu bobl ifanc a theuluoedd
12. trefnu amgylcheddau i gefnogi plant neu bobl ifanc a theuluoedd i gymryd rhan
13. sicrhau bod teuluoedd ac eraill yn deall ac yn teimlo'n hyderus yn eu rolau a'u cyfrifoldebau
14. sefydlu a datblygu perthnasoedd ac amgylcheddau diogel i gefnogi teuluoedd i rannu gwybodaeth berthnasol a phryderon
15. cefnogi teuluoedd i adnabod a gwerthfawrogi eu cyfraniadau at ofal, dysg a datblygiad plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
16. gweithio â theuluoedd ac eraill i roi adborth ynghylch gweithio mewn partneriaeth, gan nodi'r arferion gorau a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol
17. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau ar gyfer gofal, dysg a datblygiad plant neu bobl ifanc

18. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu gofal, dysg a datblygiad plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth â theuluoedd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc
2. y newidiadau y gall plant a phobl ifanc wynebu ac effaith newid ar eu dysg a'u datblygiad
3. y pwysau emosiynol, cymdeithasol ac amgylcheddol y gallai teuluoedd plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol eu hwynebu, ac y gallai fod angen cymorth arnynt â hyn
4. defnydd addas o iaith i gefnogi dealltwriaeth o anghenion plant a phobl ifanc
5. y fframweithiau asesu ac ymyrryd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
6. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
7. eich rôl o ran cefnogi'r gwaith o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a theuluoedd
8. hawliau plant a phobl ifanc i gael mynediad cyfartal at ofal a chymorth
9. y cymorth lleol a chenedlaethol sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol, eu teuluoedd ac eraill
10. gwasanaethau eirioli sy'n cefnogi hawliau plant a phobl ifanc a theuluoedd
11. arbenigedd teuluoedd mewn perthynas ag anghenion plant a phobl ifanc
12. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar ofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
13. arferion integreiddio a chynhwysiant yn eich gweithle ac ardal leol
14. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu gofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
15. patrymau datblygiadol nodweddiadol ac amrywiadau unigol mewn plant a phobl ifanc
16. sut mae adnabod ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu
17. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth weithio mewn partneriaeth â theuluoedd
18. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i bersonoli dulliau i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc
19. y mathau a'r defnydd o gymhorthion, cyfarpar, dyfeisiau neu adnoddau digidol i gefnogi gofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc
20. strategaethau cyfathrebu amgen ac atgyfnerthol i gefnogi plant a phobl ifanc

21. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu gofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth â theuluoedd
22. theorïau sy’n berthnasol i hybu gofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth â’u teuluoedd
23. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu gofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth â theuluoedd
24. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu gofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth â theuluoedd
25. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth hybu gofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth â theuluoedd, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu gofal, dysg a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth â theuluoedd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD346

Hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth â'u teuluoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD346 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gofal, Dysg, Datblygiad, Plant ag Anghenion Ychwanegol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |